# Polisi Iechyd a Diogelwch

## Rhan 1: Datganiad o Fwriad

Mae SEAS Sailability wedi ymrwymo i sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr a phob un arall a effeithir arnynt gan ein gweithgaredd. Mae'n bwysig i ni, na achosir niwed i unrhyw un o ganlyniad i'n gweithredoedd. Rydym yn cydnabod ac yn derbyn y cyfrifoldebau a osodir arnom gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, yn ogystal â'n dyletswyddau cyfraith gwlad ar gyfer pawb sy'n rhan o'n gwaith.

Ar gyfer pob un o'n gweithgareddau a gynhelir gyda sefydliad partner, bydd SEAS Sailability yn defnyddio diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod polisïau Iechyd a Diogelwch yn eu lle. Pan mai sefydliad partner sy'n gyfrifol am ddarparu gweithgaredd, byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr yn cael eu cynnwys yn eu polisïau ac yn dilyn eu gweithdrefnau.

## Rhan 2: Cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch

Y bwrdd o Ymddiriedolwyr sydd â chyfrifoldeb terfynol a chyffredinol ar gyfer iechyd a diogelwch.

Mae cyfrifoldeb o ddydd i ddydd ar gyfer sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn gorwedd gyda'r Rheolwr sydd ar Ddyletswydd.

Mae gan bawb sydd gweithio gyda ni (gweithwyr neu wirfoddolwyr) gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o bolisi iechyd a diogelwch, i gymryd gofal rhesymol o'u hunain ac eraill, ac i adroddiad ar holl bryderon iechyd a diogelwch i'r unigolyn priodol.

## Rhan 3: Trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch

### Hyfforddiant

Bydd pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn derbyn gwybodaeth iechyd a diogelwch priodol a hyfforddiant perthnasol i'r rolau a chyfrifoldebau hynny sydd ganddynt o bosibl.

### Asesiadau risg

Lle mae SEAS Sailability yn gweithio o fewn sefydliad partner, bydd yn sicrhau bod gan y partner hwnnw asesiad risg priodol sy'n sail i weithdrefnau'r partner. Byddwn yn dilyn gweithdrefnau'r partner ac yn defnyddio eu systemau adrodd i sicrhau cylchrediad.

Bydd SEAS Sailability yn creu ac yn cynnal ei asesiadau risg ei hun ar gyfer gweithgareddau sydd y tu hwnt i'r cwmpas a sonnir amdano uchod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Rheolwr Gweithrediadau.

## Rhan 4: Recordio ac adrodd

Bydd digwyddiadau a damweiniau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio ein system adrodd. Efallai y bydd gofyniad i adrodd drwy systemau ein partner hefyd. Lle bo damweiniau, digwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn adroddadwy (RIDDOR, MAIB, RYA, Comisiwn Elusennau) gwneir hyn gan ein Rheolwr Gweithrediadau ar y cyd gyda'r sefydliad partner fel bo'n briodol.

Yn dilyn bob adroddiad, bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal i adnabod achosion posibl a chamau gweithredu a all eu cymryd i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto. Bydd argymhellion yn cael eu cylchredeg fel bo'n briodol gan gynnwys mewn cysylltiad ag unrhyw bartner.

Bydd adolygiad blynyddol o'r holl ddamweiniau a digwyddiadau yn cael eu cynnal gan y Rheolwr Gweithrediadau ac adrodd arno i'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr.